Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Haulfre**

**Llangoed**
**Biwmares**
**LL58 8RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**1 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Haulfre mewn lleoliad gwledig o fewn ei dir helaeth ei hun, ar gyrion pentref Llangoed. Cyngor Sir Ynys Môn yw'r darparwr ac mae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal personol i hyd at 19 o bobl 50 oed a throsodd. Enwebwyd unigolyn cyfrifol gan y darparwr; Cheryl Price yw'r rheolwr ac mae wedi'i chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd 17 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl yn cymryd rhan yn y gwaith o greu eu cynlluniau gofal ac maent yn cael eu gofal a'u cymorth yn eu dewis ffordd. Mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n barhaus ond ni chânt eu diweddaru bob amser yn dilyn unrhyw newidiadau, ac mae hyn yn faes lle gallai'r gwasanaeth wella. Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd hyfryd gan staff poblogaidd a gaiff eu recriwtio'n ddiogel, ac sy'n derbyn hyfforddiant perthnasol ac yn cael cefnogaeth dda gan staff rheoli. Mae'r staff yn hyrwyddo iechyd, gweithgarwch corfforol ac annibyniaeth y bobl, cymaint â phosibl, a darperir cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Ceisir barn y bobl o ran ansawdd y gofal maent yn ei gael ac ymatebir i'r sylwadau a geir.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed y gwelliannau canlynol i'r gwasanaeth:

- Caiff siartiau meddyginiaeth eu cwblhau yn unol â chanllawiau fferyllol.
- Mae pob rheiddiadur, nad yw'r tymheredd wedi'i rheoleiddio, wedi'u gorchuddio'n addas ac yn amddiffyn y bobl rhag y risg o sgaldio.
- Caiff menig finyl eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn diogelu pobl sydd â nam gwybyddol.
- Caiff pob cwpwrdd dillad ei atodi'n sownd wrth y wal. Mae hyn yn lleihau'r risg y gallai'r bobl sydd mewn perygl o syrthio eu tynnu ar eu pen eu hunain.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran 5 o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cynlluniau gofal

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Darperir gweithgareddau a theithiau rheolaidd yn y bws mini er mwyn annog rhyngweithio cymdeithasol. Caiff y bobl eu helpu gan staff y maent yn eu hoffi a chaiff eu hannibyniaeth ei diogelu cymaint â phosibl.

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl gymorth i gynnal eu hobïau a'u diddordebau personol. Roedd y cynlluniau gofal yn cofnodi diddordebau a hobïau unigol y bobl sy'n galluogi'r staff i ddarparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y person. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn treulio'r diwrnod fel y mynnont, yn darllen y papur newydd lleol, sgwrsio â ffrindiau, treulio amser gyda'u perthnasau sy'n ymweld neu wylio'r teledu. Roedd y staff yn treulio amser yn siarad â'r bobl, yn gwrando ar eu straeon am eu bywydau ac yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y gymuned. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gêm bingo, ac roedd y gweithgaredd hwn yn cynnig cyfle i ryngweithio ag eraill, hel atgofion a chadw'r ymennydd yn egnïol. Roedd y bobl yn cael cyfle i fynd ar deithiau dydd lleol amrywiol, gan ddefnyddio bws mini'r gwasanaeth, ac mae taith i Iwerddon wedi'i threfnu ar gyfer y dyfodol agos. Gwelsom luniau o un person, sydd â diddordeb oes mewn pêl-droed, yn ymweld â stadiwm ei dîm, a dywedodd y staff wrthym ei fod wedi mwynhau'n fawr. Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Caiff y bobl eu hannog i barhau'n annibynnol a datblygu eu sgiliau unigol. Gwelsom y bobl yn cael eu hannog gan y staff i wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain, gyda chymorth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen. Er enghraifft, gwelsom un person yn defnyddio ei ffrâm i gerdded i'r ystafell fwyta, gyda'r staff yn dilyn yn agos gyda chadair olwyn, rhag ofn y byddai angen i'r person stopio i orffwys ar y ffordd. Roedd hyn yn galluogi'r person i deimlo'n ddiogel ac aros yn symudol gyhyd â phosibl. Roedd cynlluniau gofal y bobl yn cofnodi'r hyn y gallent ei wneud drostynt eu hunain yn ogystal â'r tasgau lle roedd angen cymorth y staff arnynt. Roedd hyn yn helpu dealltwriaeth y staff o alluoedd y bobl ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd annog y bobl i gynnal eu lefel o annibyniaeth.  Caiff potensial y bobl ei ddatblygu gymaint â phosibl.

Mae'r bobl yn cyd-dynnu'n â'r staff sy'n rhoi cymorth iddynt ac yn eu hoffi. Gwelsom y staff yn siarad â phobl yn barchus, yn newis iaith yr unigolyn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac yn dangos diddordeb yn yr hyn roedd gan y bobl i'w ddweud. Roedd y bobl yn ymddangos fel pe baent yn gartrefol ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff a dywedwyd wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais wrthynt. Dywedwyd wrthym: *"I'm very happy here, the staff are all great"* ac *"I like having a laugh and a joke with the staff".* Gwelsom y staff yn amddiffyn urddas y bobl drwy gynnig help gyda gofal personol yn ddiffwdan. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol, diogel.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn cymryd rhan yn y gwaith o greu eu cynlluniau gofal. Caiff eu hanghenion eu cofnodi'n fanwl sy'n galluogi'r staff i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r staff yn gyfarwydd ag anghenion y bobl. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i sicrhau y caiff cynlluniau gofal eu diweddaru.

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl gymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd i gynnal eu hiechyd cyffredinol a chadw'n heini. Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu un person i gwblhau ei ymarferion ffisiotherapi a gwnaethant ganmol ymdrechion y person. Cafodd y bobl eu hannog a'u helpu i gerdded pellteroedd byr, y tu mewn a'r tu allan i'r safle, er mwyn cynyddu eu lefelau o weithgarwch corfforol. Caiff y risg o gwympo ei reoli drwy ddefnyddio adnodd rheoli cwympo cydnabyddedig a gwelsom fod y rheolwr wedi cwblhau archwiliad cwympo. Roedd yr archwiliad yn ystyried amseroedd a lleoliad yr achosion o gwympo, a gwnaethom drafod gyda'r rheolwr ffactorau perthnasol eraill, megis yr amgylchedd, er mwyn datblygu'r archwiliad ymhellach. Yn dilyn yr arolygiad hwn a chyn cwblhau'r adroddiad hwn gwelsom fod y rheolwr wedi gwneud hyn. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol ar ymweliad wrthym fod y staff yn *"work well with us, they always follow advice provided, no problems at all"* a bod hyn yn helpu'r bobl i reoli eu cyflyrau iechyd. Dywedodd y bobl wrthym fod trefniadau wedi cael eu gwneud iddynt weld Meddyg yn ôl yr angen a gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau hyn. Mewn perthynas â deiet, dywedodd y bobl wrthym *"the food is absolutely fantastic"* a *"good traditional food"* a gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod y bobl yn cael deiet iachus, maethlon ac amrywiol. Roedd y bobl yn cael eu pwyso'n rheolaidd ac yn cael eu cyfeirio at ddeietegydd pan fod angen cymorth arbenigol. Yn ystod yr arolygiad blaenorol gwnaethom argymell fod siartiau meddyginiaeth yn cael eu llofnodi ar ôl i bobl gymryd eu meddyginiaeth ac yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom fod hyn yn digwydd. Caiff y bobl gymorth i fod yn iach ac yn weithgar.

Mae cynlluniau gofal y bobl yn cofnodi eu hanghenion unigol a sut yr hoffent gael eu helpu; fodd bynnag, nid yw dogfennaeth bob amser yn cael ei diweddaru yn dilyn newid. Gwelsom fod y bobl wedi cymryd rhan yn y gwaith o greu eu cynlluniau gofal ac roedd eu dewisiadau mewn perthynas â sut roeddent yn dymuno cael eu helpu wedi'u cofnodi. Roedd yr amseroedd roedd y bobl yn dewis codi yn y bore a mynd i'r gwely gyda'r nos wedi'u cofnodi, a oedd yn dangos parch tuag at ddewis trefn ddyddiol y bobl. Roedd anghenion gofal penodol y bobl wedi'u cofnodi'n fanwl a oedd yn helpu'r staff i ddarparu cymorth cyson. Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ond nid oeddent bob amser yn cael eu diweddaru yn dilyn newid i anghenion y bobl. Gwelsom nad oedd cynllun gofal un person yn adlewyrchu newid yn ei anghenion mewn perthynas ag ymddygiad. Fodd bynnag roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymwybyddiaeth o'r newid a'r cymorth roedd ei angen ar y person. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr a chafodd y cynllun gofal perthnasol ei ddiweddaru ar unwaith. Gwnaethom argymell diweddaru cynlluniau gofal

y bobl yn dilyn newid yn eu hanghenion i sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar gael i'r staff am anghenion y bobl. Mewn perthynas â phobl â nam gwybyddol, gwelsom fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn briodol i'r awdurdod lleol ar gyfer awdurdodiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac roeddem ni, AGC, hefyd yn cael gwybod pan fydd hyn wedi digwydd. Mae Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn sicrhau mai'r cyfyngiadau sydd ar waith i amddiffyn pobl â phroblemau cof rhag niwed yw'r opsiwn lleiaf cyfyngol posibl sydd ar gael. Mae'r bobl yn derbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir yn y ffordd y dymunant ei dderbyn.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol, ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli i adlewyrchu eu diddordebau a'u chwaeth eu hunain. Mae mannau cymunedol ar gael i bobl gwrdd ag eraill a darperir lolfeydd llai hefyd. Mae gerddi ac ardaloedd i eistedd yn yr awyr agored ar gael hefyd.

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd hyfryd a chyfforddus sydd wedi'i bersonoli. Gwelsom nad oedd y drws ffrynt wedi'i gloi ond gwnaeth synhwyrydd hysbysu'r staff pan ddaethom i mewn i'r adeilad. Roedd cofnod yn cael ei gadw o bawb a oedd wedi ymweld â'r adeilad a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr mewngofnodi pan wnaethom gyrraedd. Cawsom ein tywys o gwmpas y safle a gwelsom ei fod yn gyfforddus ac yn gartrefol. Roedd yr holl ardaloedd a welsom yn lân, yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Gwelsom fod angen ailaddurno rhai coridorau a bod angen ailbaentio rhai fframiau drws. Dywedodd y rheolwr wrthym fod trefniadau eisoes wedi cael eu gwneud i baentiwr weithio yn y gwasanaeth yn y dyfodol agos. Roedd ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli gyda'u heitemau pwysig eu hunain a lluniau o'u teuluoedd. Felly gallai'r bobl deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol yn eu hystafelloedd eu hunain. Roedd ystafelloedd byw cymunedol ar gael lle y gallai'r bobl eistedd a gwylio'r teledu gyda phobl eraill, os oeddent yn dewis gwneud hynny. Roedd hefyd heuldy mawr a gerddi helaeth, gydag ardaloedd i eistedd, ar gael i'r bobl eu mwynhau. Roedd yr ystafell fwyta yn fawr gyda byrddau wedi'u gosod yn hyfryd a llieiniau glân yn barod i bobl eistedd a chael prydau bwyd. Gellid gweld golygfeydd panoramig o'r môr a chefn gwlad o lawer o'r ystafelloedd yn yr adeilad. Mae'r amgylchedd hyfryd yn cyfrannu at ymdeimlad y bobl o berthyn ac hefyd eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae risgiau i ddiogelwch y bobl o fewn yr amgylchedd wedi cael eu nodi a'u gwaredu. Roedd y rheolwr wedi gweithredu, yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gennym i wella diogelwch yr amgylchedd. Gwelwyd bod yr ystafelloedd cymunedol a'r ystafelloedd gwely yn hygyrch, yn eang ac yn rhydd rhag unrhyw risg o faglu. Gwelwyd y bobl yn cerdded yn ddiogel o fewn y gwasanaeth. Roedd y larwm tân yn cael ei brofi bob wythnos a gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau hyn. Roedd y goleuadau argyfwng yn cael eu profi bob mis, a chafodd hyn ei gadarnhau gan dystiolaeth ysgrifenedig hefyd. Roedd y gegin wedi cael sgôr o 5 (da iawn) gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gwelsom fod tymheredd bwyd yn cael ei gofnodi fel rhan o'r trefniadau hylendid bwyd. Caiff pobl fudd o fyw mewn amgylchedd diogel.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Caiff y bobl eu helpu gan staff sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael hyfforddiant perthnasol a chymorth rheoli da. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i'r bobl rannu eu barn ar y gwasanaeth a gânt, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

### Ein canfyddiadau

Mae systemau ar waith i fesur ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â chanlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom adroddiad ansawdd gofal, dyddiedig Awst 2018, a oedd yn cynnwys casglu adborth gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol oedd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth. Roedd cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd hefyd wedi cael eu cynnal lle gofynnwyd i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth a gânt ac roedd cynlluniau gweithredu yn cofnodi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r hyn a ddywedodd y bobl. Roedd hyn yn dangos bod y gwasanaeth wedi gwrando ac wedi ymateb i'r hyn a ddywedodd y bobl. Gwelsom hefyd adroddiadau a luniwyd gan yr unigolyn cyfrifol a oedd yn dangos eu bod yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Caiff y bobl ofal o ansawdd uchel gan wasanaeth sy'n gosod targedau uchel iddo'i hun, sy'n ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus.

Gall y bobl gael sicrwydd bod y gwasanaeth yn defnyddio dulliau recriwtio priodol ac yn darparu cymorth a hyfforddiant i'w staff. Edrychom ar ffeiliau tri aelod o staff a gwelsom fod y gwiriadau priodol wedi cael eu gwneud cyn i bobl ddechrau gweithio i'r gwasanaeth. Roedd y staff newydd yn dilyn fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru a oedd yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y staff mewn perthynas â gweithio gyda phobl hŷn. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u helpu gan y rheolwr cofrestredig. Roedd y staff a'r rheolwr yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a oedd yn rhoi'r cyfle i drafod materion ymarfer a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Dros y 12 mis diwethaf roedd y staff wedi cael hyfforddiant mewn sawl maes allweddol gan gynnwys rhoi meddyginiaeth, diogelu, ymwybyddiaeth o ddementia, a galluedd meddyliol. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm rheolaidd hefyd i drafod materion perthnasol. Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant staff; mae'r staff yn cael eu harwain, eu helpu a'u hyfforddi'n dda.

Mae'r lefelau staffio yn adlewyrchu anghenion a niferoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Darperir staff atodol ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw staff cadw tŷ ar gael. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y niferoedd staffio yn briodol a gwelsom fod anghenion y bobl yn cael eu diwallu wrth iddynt godi. Darparwyd cogydd a chynorthwyydd cegin a oedd yn golygu y gallai'r staff gofal ganolbwyntio ar dreulio amser gyda phobl a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud dyletswyddau glanhau, yn ogystal â'r golch a gwnaethant gadarnhau nad oedd cwblhau'r

tasgau hyn yn effeithio ar eu gallu i helpu'r bobl. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr a roddodd sicrwydd i ni fod y gwasanaeth wrthi'n recriwtio ar gyfer y rôl hon a bod y sefyllfa yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau nad yw absenoldeb swyddog cadw tŷ yn effeithio'n andwyol ar y gofal a'r cymorth y mae pobl yn eu cael nac ar lefel glendid yr adeilad. Caiff y bobl fudd o wasanaeth effeithlon lle gwneir y defnydd gorau o adnoddau.

Mae prosesau ar waith i gael ac ymateb i unrhyw gwynion am y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwybod â phwy i siarad os oedd cwyn ganddynt a'u bod yn teimlo y gallant wneud hynny. Roedd polisi cwynion ar gael, a oedd yn rhoi gwybod i bobl am y broses gwyno. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na chafwyd unrhyw gwynion dros y 12 mis diwethaf. Gall bobl fynegi eu pryderon.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio mewn arolygiadau blaenorol.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

• Dylid diweddaru cynlluniau gofal y bobl yn brydlon i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn eu hanghenion gofal.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal yr arolygiad dirybudd hwn fel rhan o'r rhaglen flynyddol o arolygiadau. Cynhaliwyd yr arolygiad ar 14 Medi 2018 rhwng 09:15 am a 3:45 pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

Gwnaethom gynnal arolygiad o'r adeilad, gan weld yr ardaloedd cymunedol, yr ystafell fwyta a sampl o ystafelloedd gwely.

• Gwnaethom siarad â'r canlynol:

- pedwar defnyddiwr gwasanaeth
- tri aelod o staff gofal, y cogydd a'r rheolwr
- gweithiwr iechyd proffesiynol ar ymweliad.

• Defnyddiwyd holiaduron er mwyn ceisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau, staff a gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda'r gwasanaeth.

• Gwnaethom graffu ar amrywiaeth o gofnodion, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- cofnodion gofal tri unigolyn
- cofnodion tri aelod o staff
- bwydlenni
- cofnodion o gyfarfod preswylwyr a gynhaliwyd ar 21 Awst 2018
- y datganiad o ddiben
- yr adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol, dyddiedig mis Awst 2018
- adroddiadau rheoliad 27 yr unigolyn cyfrifol dyddiedig Tachwedd 2017, Mawrth 2018 a Mehefin 2018.
- cofnodion eraill yn ymwneud â gweithredu'r cartref.

• Ni wnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI 2) yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd hyn oherwydd bod pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu mynegi eu barn yn llawn am y gwasanaeth a gânt.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref Gofal i Oedolion – Hŷn** |
| **Person Cofrestredig** | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Rheolwr Cofrestredig** | **Cheryl Price** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Dyddiadau arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **17 a 18 Awst 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **14 Medi 2018** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg sy'n golygu y gall y bobl dderbyn gwasanaeth yn y Gymraeg heb fod angen iddynt ofyn am hynny.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |